Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Video Conference via Zoom

Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Medi 2021

Amser: 09.06 - 09.47

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd) Lesley Griffiths AS Darren Millar AS Siân Gwenllian AS
Staff y Pwyllgor:	Graeme Francis (Clerc)
Eraill yn bresennol	Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth Helen Carey, Llywodraeth Cymru Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Anfonodd David Rees a Jane Dodds eu hymddiheuriadau.

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.10pm.

Dydd Mercher

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm.

Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes sicrhau, os bydd yr Aelodau'n bresennol yn y Siambr cyn ac ar ôl y toriad, y dylent barhau i ddefnyddio'r un sedd.

Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes atgoffa'r Aelodau o'r gofynion i ddatgan buddiannau perthnasol, lle bo hynny'n briodol, cyn cyfrannu at y trafodion. Bydd y Swyddfa Gyflwyno hefyd yn cyhoeddi nodyn i'r holl Aelodau.

Dywedodd y Llywydd wrth y Pwyllgor Busnes y bydd canlyniad balot cyntaf y Chweched Senedd ar gyfer Bil Aelod yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

Dydd Mawrth 28 Medi 2021 -

- Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Comisiwn Cyfansoddiadol (45 munud) - Gohiriwyd

Dydd Mawrth 5 Hydref 2021 -

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (45 mun)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 'Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y Stori Hyd yma' (45 munud)
- Dadl: Datganoli Pwerau Trethu Newydd (60 munud)

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes i'r Trefnydd drefnu cyfle i'r Aelodau drafod cyflwyno pasys COVID a gofynnwyd pa mor aml y mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud datganiadau ar COVID yn y dyfodol. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ymgynghori â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y materion hyn.

3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 13 Hydref –

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

3.4 Dadl Aelodau - Dewis cynnig ar gyfer dadl

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 29 Medi:

NNDM7773 Luke Fletcher

Rhun ap Iorwerth

Paul Davies

Janet Finch-Saunders

Jenny Rathbone

Jack Sargeant

Delyth Jewell

Altaf Hussain

Jane Dodds

Rhys ab Owen

Peredur Owen Griffiths

Mabon ap Gwynfor

Sioned A Williams

Gareth L Davies

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) effaith sylweddol pandemig COVID-19 ar bobl sy'n byw gyda dementia yng Nghymru a phobl y mae dementia yn effeithio arnynt;

b) pwysigrwydd gofalwyr di-dâl o ran sicrhau bod y system gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gallu gweithredu yn ystod y pandemig.

2. Yn nodi ymhellach yr angen am ddiagnosis cywir o ddementia i ganiatáu i ofalwyr di-dâl, y systemau iechyd a gofal cymdeithasol a chyrff a darparwyr gwasanaethau eraill gynllunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gywir, fel y nodir yn y cynllun gweithredu cenedlaethol ar ddementia.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ariannu ymchwil i ddatblygu dulliau diagnostig cywir i sicrhau bod pobl sy'n cael diagnosis o ddementia yn gallu cael y cymorth cywir ar unwaith ar ôl cael diagnosis;

b) ariannu cymorth ôl-ddiagnostig ar gyfer pob math o ddementia ledled Cymru;

c) sefydlu arsyllfa ddata dementia genedlaethol i sicrhau cywirdeb mewn data dementia a chasglu, dadansoddi a lledaenu data ar ddementia i bob darparwr gwasanaeth sy'n dymuno cael gafael ar ddata i helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau dementia ledled Cymru.

Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-22

4 Pwyllgorau

4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r ddadl ar y ddeiseb.

4.2 Ceisiadau o ran amserlen pwyllgorau

Trafododd y Pwyllgor Busnes geisiadau o ran amserlen gan nifer o bwyllgorau ac effaith yr Agoriad Swyddogol ar fusnes y Senedd. Nododd y llythyrau gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a chytunodd ar y camau gweithredu canlynol:

- Pwyllgor Cyllid – cyfarfodydd ychwanegol fore dydd Gwener 8 Hydref, bore dydd Llun 18 Hydref, bore dydd Gwener 19 Tachwedd a bore dydd Mercher 22 Rhagfyr;

- Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg – cyfarfodydd ychwanegol fore dydd Llun 18 Hydref a naill ai bore dydd Llun 13 Rhagfyr neu ddydd Gwener 17 Rhagfyr (bore a/neu brynhawn);
- Pwyllgor y Llywydd – cyfarfod ychwanegol fore dydd Llun 11 Hydref;
- Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – cyfarfod ychwanegol fore dydd Mercher 20 Hydref;
- Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – slot cyfarfod amgen fore dydd Mercher 20 Hydref;
- Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – slot cyfarfod amgen brynhawn dydd Llun 18 Hydref neu ddydd Gwener 22 Hydref (bore a/neu brynhawn);
- Pwyllgor Safonau – hyblygrwydd i gwrdd fore dydd Mawrth os oes angen gwneud hynny er mwyn ystyried cwyn; a
- Pwyllgor Deisebau – gofyn am symud yn barhaol o slot fore Llun i slot brynhawn Llun.

4.3 Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ei ymateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i nodi ei ddull o fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd.

5 Sefydlu pwyllgorau a'u cylchoedd gorchwyl

5.1 Pwyllgorau'r Chweched Senedd – Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r chwe aelod yn cynnwys cadeiryddion pwyllgorau, i'w henwebu gan y grwpiau (3 Llafur, 2 o'r Ceidwadwyr ac 1 Plaid Cymru). Byddai'r Rheolwyr Busnes yn trafod cynigion ar gyfer aelodau dirprwyol y pwyllgor gyda'u grwpiau, ac yn dychwelyd at y mater yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.

6 Dyddiadau'r toriadau

6.1 Dyddiadau ar gyfer toriadau'r Senedd 2021 - 2022

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes y dyddiadau ar gyfer toriad hanner tymor yr hydref a thoriad y Nadolig yn 2021, yn ogystal â hanner tymor y gwanwyn a thoriad y Pasg yn 2022, a chytunwyd ar y dyddiadau dros dro ar gyfer hanner tymor y Sulgwyn a thoriad yr haf yn 2022.

Unrhyw fater arall

Trefniadau'r Agoriad Swyddogol

Trafododd y Pwyllgor Busnes y trefniadau ar gyfer yr agoriad swyddogol a chytunodd i roi adborth ar ôl ymgynghori â'u grwpiau.